CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor nos Lun 4 Gorffennaf 2016**

**Presennol:** Cadeirydd: Cyng Gareth Evans. Cynghr: Mrs Amanda Edwards, Mrs Jina Hawkes, Colin Lewis, Ken Symmons, Mrs Kay Morgan, Mrs Eleri Davies, Iwan Davies, Hywel Davies, Bryan Rees

CS H Lewis

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: Neb

Yn union cyn i'r Cyfarfod gychwyn, rhoddodd cynrychiolwyr o Ddŵr Cymru a Skanska drosolwg byr o'r gwaith helaeth a fydd yn cael ei wneud ar y prif gyflenwad dŵr a'r orsaf bympio dros y ddwy flynedd i ddod. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu hesboniad.

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Croesawodd y Cadeirydd i'r rheiny a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Ni chofnodwyd dim ymddiheuriadau am absenoldeb.

*Ymunodd y Cyngr Mrs A Edwards a Mrs J Hawkes â'r cyfarfod.*

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dywedodd y Cyng Mrs J Hawkes ei bod yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd lleol.

**4. Materion Personol**
Gofynnodd y Cadeirydd am i lythyr llongyfarch gael ei anfon at y cyn Gyng Lloyd Gerrard, a oedd yn ddiweddar wedi ei gydnabod am ei ymdrechion cymunedol gan Uchel Siryf Dyfed. Cytunwyd i wneud hynny.
**GWEITHREDU:** Llythyr i gael ei anfon GAN: Y Clerc

Llongyfarchodd y Cyng K Symmons hefyd am fod wedi gwasanaethu am 40 mlynedd yn Gynghorydd Cyngor Cymuned, 22 o'r rheiny gyda Chyngor Cymuned Llangoedmor.

Rhoddodd y Cyng Sirol H Lewis wybod am ei gyfeiriad newydd, a diolchodd i'r Cyngor am eu llythyr at ei wraig yn ystod ei salwch yn ddiweddar.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Nid oedd dim ceisiadau cynllunio wedi dod i law.

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
O ran eitem 15, penderfynwyd dileu'r cyfeiriad 'ond bod cymorth ffurfiol nawr wedi'i drefnu'. Ar ôl gwneud hynny, cynigiodd y Cyng C Lewis y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng E Davies a phasiwyd yn unfrydol.

**7. Materion yn Codi**
Dywedodd y Cyng B Rees na fyddai'r ras o gwmpas arfordir Prydain - a'r Cyng I Davies ac yntau'n bwriadu cymryd rhan – mwyach yn cael ei chynnal**.**

**8. Cyllid a Gweinyddu**

| Talwyd | Am | banc |
| --- | --- | --- |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.07.16 | Dŵr Cymru Cyf | Taliadau am ddŵr | 502.78 | |
| | SSE | Taliadau am drydan | 33.22 | |
| | D I Evans | Clirio rhwystr yn y toiledau | 144 | |
| | E L Jones | Argraffu llyfrynnau hanes | 144 | |
| | Playsafe Limited | Archwiliad blynyddol y maes chwarae | 92.4 | |
| | Cyngor Cymuned Llandudoch | Hanner cost cynhadledd SLCC/ULIC | 34.5 | |
| | Richard Harman | Biniau Ebrill i Fehefin | 30 | |
| | S Houghton | Milltiroedd a phostio | 45.12 | |
| | S Houghton | Addasu'r gyflog | 128.14 | |
| 30.07.16 | S E Houghton | Cyflog Gorffennaf | 322.53 | AS |
| | | | 1476.69 | |

Cynigiwyd: Cyng K Symmons, eiliwyd Cyng B Rees, cytunwyd yn unfrydol.

Llofnodwyd y cais am gerdyn debyd a'r gorchymyn am archeb sefydlog ar gyfer cyflog y Clerc am £322.53 ar sail 37 awr y mis yn ôl £8.717 (SCP15).

Gofynnodd y Clerc am bwerau wedi'u dirprwyo i dalu unrhyw dalebau brys annisgwyl, drwy ymgynghori â dau Gynghorydd, a'r Cyngor i gael gwybod yn ei gyfarfod nesaf am unrhyw daliadau a wneid felly. Cytunwyd yn unfrydol.

Anogodd y Cyng Sirol H Lewis y Cyngor i ystyried gwariant a chyllideb yn ofalus oherwydd ei bod yn bosibl yn y dyfodol y gallai cyllidebau Cynghorau Cymuned gael eu capio.

*Adroddiad am HMRC / PAYE*
Ar ôl cyfarfod â Ms Quinnell, ac yng ngoleuni'r wybodaeth a ddaethai o'r cyfarfod hwnnw, ac ar ôl ymgynghori â'r Cyng Mrs A Edwards, cynigiodd y Clerc ysgrifennu at HMRC gan na welai unrhyw ffordd i baratoi 'Diweddariad Blwyddyn Gynharach' fel roedd HMRC wedi gofyn gynt. Cytunwyd i hyn.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â HMRC GAN: Y Clerc

*Diwedd y flwyddyn*
Nodwyd nad oedd dim ymateb wedi bod hyd yma i'r cyflwyniadau Diwedd Blwyddyn.

*Rheoliadau Ariannol*
Roedd Un Llais Cymru wedi darparu copi o'r rheoliadau ariannol diwygiedig. Byddai'r Clerc yn edrych drwyddynt ac yn eu cyflwyno i'r Cyngor.

*Contract a thelerau'r Clerc*
Diolchodd y Clerc i'r Cyngor gan ei bod wedi cael y dogfennau diwygiedig yn gynharach y diwrnod hwnnw. Nid oedd wedi cael amser i'w darllen.

*Cais y Clerc am Wyliau*
Cytunwyd yn unfrydol.

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Dywedodd CSC y byddai eu peirianwyr yn archwilio'r bont ac yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r niwed y soniwyd amdano.

Roedd perchennog Wernynad (SA43 2AF) wedi gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned yn ei gais i CSC osod arwydd 'dim ffordd drwodd' ar ddiwedd y lôn. Roedd cerbydau'n troi i mewn i'r lôn, a'r unig ddewis iddynt oedd bacio bob cam neu droi ar glos neu gaeau'r fferm brysur gerllaw. Roedd hyn nid yn unig yn fater o ddiogelwch, ond hefyd yn fater o ddiogeled. Cytunwyd i ysgrifennu i gefnogi'r cais.
**GWEITHREDU:** Anfon llythyr GAN: Y Clerc

Roedd cynrychiolwyr o CSC eisiau dod i gyfarfod mis Medi i drafod y cynllun i 'fabwysiadu' llwybrau. Cytunwyd y byddai'r cyfarfod hwnnw'n cychwyn am 6.45 ar gyfer hynny.

**10. Amwynderau**

*Parc Ceir / Hawl Tramwy*

Ar ôl darllen y llyfr a oedd wedi'i ddarparu'n garedig gan y Cyng Hazzelby, sicrhawyd gan y Clerc fod yr hawl tramwy yng nghefn y cae hwn. Nid oedd hawl tramwy i'r cae o'r brif ffordd.

Roedd y Clerc yn paratoi amserlen sylfaenol ar gyfer meddiannu'r parc ceir a'r bloc toiledau, a byddai'n gwneud yr un fath ar gyfer y cae maes o law. Er bod awgrym clir bod y ddau le yn eiddo i'r Cyngor, ni allai'r Clerc ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth o unrhyw blaniau manwl etc ar gyfer y parc ceir. Dylai fod yn bosibl gwneud cyfrif bras o'r arwynebedd dan sylw.

*Bloc Toiledau*

Byddai Dŵr Cymru yn ymweld â'r safle i weld problem honedig y dŵr yn gollwng. Byddai'r Cyng Colin Lewis yn cwrdd â nhw ar y safle ac yn rhoi adroddiad i'r Cyngor. Roedd y Clerc wedi paratoi cymhariaeth o'r ychydig filiau dŵr diweddar ac wedi'u rhoi i'r Cyng Lewis. Byddai'r Cyng Mrs A Edwards yn trefnu allwedd i'r cwpwrdd glanhau ar gyfer y Cyngr Lewis

**GWEITHREDU:** Y Cyngr C Lewis i gwrdd â Dŵr Cymru ar y safle. Y Cyng Mrs A Edwards i drefnu cael allweddi.

*Cloeon - allweddi*

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gosod cloeon ar y drysau ar ddwy ochr y bloc. Cytunwyd y byddai copi'r allweddi, gyda chaniatâd, yn cael ei gadw yn swyddfa Neuadd y Cwrwgl a hefyd gan y Cadeirydd, y Clerc, a Mr E Rees a oedd yn glanhau'r blociau.

**GWEITHREDU:** Cloeon i gael eu gosod ac allweddi ychwanegol i gael eu paratoi GAN: Y Cadeirydd.

*Ardal y Banc Poteli*

Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards, er bod y gwydr wedi ei glirio, fod y blychau cardfwrdd roedd y poteli wedi'u gadael ynddyn nhw wedi'u adael ar ôl a'i bod hi wedi clirio'r rheiny. Teimlid bod angen gwacau'r banciau'n amlach i helpu lleihau'r math hwn o broblem.

**GWEITHREDU:** Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

*Elusen*

Roedd gwybodaeth am ryddhau gan Fwrdd Safonau CSC wedi'i hanfon at bawb. Roedd y Comisiwn Elusennau wedi ymateb i'r cwestiynau am redeg Cymdeithas Cae Chwarae Llechryd – Elusen 506116.

Roedd eu cofnod ar hyn o bryd yn rhestru unigolion a oedd yn ymddiriedolwyr, ac roedd angen newid hyn cyn gynted â phosibl. Roedd angen i'r Cyngor hefyd ddiwygio unrhyw ffigurau incwm a gwariant o ganlyniad i'r eiddo elusennol gael ei reoli fel eiddo'r Cyngor. Dywedodd y Comisiwn ei bod yn bwysig i'r Cyngor gywiro'r mater hwn cyn gynted â phosibl a gwahanu busnes elusennol y Cyngor oddi wrth fusnes y Cyngor.

Er mwyn gwneud hyn roedd angen galw CCB, a rhaid i'r Elusen benodi ysgrifennydd. Rhaid i'r Elusen a'r Cyngor gytuno sut i rannu'r asedion, a byddai angen i'r Elusen lunio cyllideb a gwneud cais i'r Cyngor am arian. Byddai'n rhaid rhoi hwnnw drwy gyfrif ar wahân cyn gynted â phosibl, i ariannu unrhyw waith o ganlyniad i'r CCB. Ar ôl trafod cytunwyd i gynnal CCB Elusennol ar ôl cyfarfod y Cyngor ym mis Medi. Atgoffwyd y Cynghorwyr i roi sylw priodol i bosibilrwydd buddiant rhagfarnol wrth gynrychioli'r Cyngor a'r Elusen. Gofynnwyd a allai'r Cyng Sirol H Lewis gynnig cyngor, a chytunwyd i ymchwilio i hynny. Gofynnwyd hefyd a allai'r Cyngor brydlesu tir yr Elusen.

**GWEITHREDU:** Trefnu CCB Elusennol ac ymchwilio i'r cwestiynau GAN: Y Clerc

*Gadawodd y Cyng Sirol H Lewis y cyfarfod.*

Cysylltu â HMRC ynglŷn ag unrhyw faterion TAW a oedd yn codi.

**GAN:** Y Clerc

*Cae chwarae*

Roedd yr adroddiad ROSPA wedi cyrraedd ac yn gyffredinol yn tynnu sylw at fân faterion i roi sylw iddynt. Ar ôl siarad â'r arolygydd am fater y siglen fach, cytunwyd i edrych ar gostau cael siglen ac wyneb newydd yn hytrach na cheisio trwsio'r siglen bresennol.

**GWEITHREDU:** Anfon manylion am siglenni a chostau'n fras GAN: Y Clerc

*Gosodiad goleuadau Nadolig yn yr Eglwys* – nid oedd ymateb hyd yma oddi wrth Mr Penny.

**GWEITHREDU:** Anfon gwybodaeth ar y Cadeirydd GAN: Y Clerc

*Torri Porfa*

Nodwyd bod yr ardal o gwmpas adeilad y Mileniwm nawr yn gymen. Mynegwyd gofid am yr holl sbwriel ar y cae chwarae, ond teimlid y byddai biniau ychwanegol yn annhebygol o wella pethau.

**11. Prosiectau'n Parhau**

*Gwylio Cyflymder*

Roedd cais wedi'i wneud i CSC am wybodaeth am gyflymder ond heb ei darparu hyd yma.

*Cynllunio mewn Argyfwng*

Ni chyflwynwyd dim byd.

Gofynnwyd a allai'r Cyngor baratoi rhyw fath o lythyr newyddion. Ar sail profiad y gorffennol, teimlwyd yn gyffredinol y byddai hyn yn golygu llawer iawn o waith.
**GWEITHREDU:** Eitem ar agenda mis Medi GAN: Y Clerc

*Diffibrileiddiwr*
Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards ei bod wedi holi ynglŷn â hyfforddiant ac y byddai gŵr bonheddig yn y pentref yn barod i ddarparu hyn yn ddi-dâl i'r gymuned. Trefnwyd dyddiad dros dro ar gyfer 7 Medi.

*Pentref yn ei Flodau*
Roedd y Felin Goed wedi cadarnhau y byddent yn fodlon iawn trafod darparu defnyddiau FOC. Roedd pedwar safle wedi'u nodi: diwedd Lôn y Ladi, ochr draw'r llain borfa cyn Cardi BS, tua Green Hill i mewn i'r pentref wrth y groesffordd, ac wrth Bont y Mileniwm. Byddai blodau hefyd yn cael eu plannu dan yr hysbysfwrdd yn y parc ceir. Byddid yn cysylltu â pherchnogion tir ynglŷn â chaniatâd, etc.
**GWEITHREDU:** Nodi perchnogion tir a gofyn iddynt.

**12. Digwyddiadau**
*Plac Slt Lawrence / Cyflwyno'r plac cofio*
Ar ôl trafodaeth, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc yn gweithio ar drefniadau ac yn cyflwyno'r rheiny gerbron y Cyngor.
**GWEITHREDU:** Cynlluniau pellach ar gyfer y digwyddiadau GAN: Y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc

*Marathon Lluniau – wedi'i ohirio tan yr hydref*
Am resymau personol, roedd y Cyng B Rees wedi gohirio'r Marathon Lluniau tan yr hydref ar ôl trafod y mater gyda'r ysgol. Llongyfarchwyd ef a'i wraig ar enedigaeth eu hwyres.

**13. Adroddiadau Cyfarfodydd**
Roedd y Clerc wedi bod yng nghynhadledd SLCC / OVW yn Abertawe. Dywedwyd wrth y gynhadledd fod ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru wedi'i ohirio ac na fyddai'n digwydd yn ystod hanner cyntaf tymor y Cynulliad. Byddai rhagor o ymgynghori, a gellid disgwyl cyhoeddiad yn yr hydref 2016.
Yswiriant: pwysleisiwyd yn y cyflwyniad y dylai cyrff sy'n defnyddio eiddo Cyngor ar gyfer digwyddiadau drefnu eu hyswiriant 3ydd parti eu hunain a darparu copi i'r Cyn gor i'w ffeilio**.**

**14. Gohebiaeth a gohebiaeth e-bost**
*Nodwyd:*
Llythyr Newyddion Antur Teifi
Newyddion diweddaraf oddi wrth ICO - Mehefin 2016
DIWRNOD YMWYBYDDIAETH CAM-DRIN YR HENOED – 15 MEHEFIN 2016
Cartref Preswyl Prosiect CAVO
Rebecca Brough, Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth Cymru, Cymdeithas y Cerddwyr Cymru
Canllaw ar lwybrau cyhoeddus
Archwilydd Cyffredinol Cymru: Adroddiad Blynyddol 2015-16
Twf Gwyrdd Cymru - Galwad am brosiectau ar gyfer 2016-17
Adroddiad Blynyddol Comisiwn Staff Gwasanaeth Cyhoeddus
Copi caled o Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus am 15/16

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**
Dywedodd y Cyng B Rees ei fod yn archwilio'r cae chwarae bob wythnos. Roedd wedi sylwi ar wyneb anwastad y darn concrid yn y cae chwarae a bod piniau ar goll o waelod pystion y gôl. Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards fod un i'r piniau ganddi hi ac y byddai'n rhoi hwnnw'n ôl yn ei le, ond roedd piniau eraill wedi mynd ar goll. Cytunwyd i gysylltu â Mr Barry Evans i gael piniau newydd.
**GWEITHREDU:** Trefnu i biniau newydd gael eu gwneud GAN: Y Clerc

Atgoffodd y Cyng Mrs A Edwards bawb am garnifal y pentref a'r ras hwyaid yn ystod penwythnos 16/17 Gorffennaf.

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 5.09.16 - 7.00pm**
Gellid galw cyfarfodydd eithriadol o'r Cyngor i ddelio ag unrhyw fusnes brys.

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.45pm.*